

Cwestiynau cyffredin

Cam Un - Ehangu'r Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar

1. Beth yw'r cynlluniau i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i fynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg?

Bydd cam cyntaf yr ehangu, a fydd yn dechrau ym mis Medi 2022, yn cynnwys pedair elfen Dechrau'n Deg: gofal rhan amser o safon wedi'i ariannu ar gyfer plant 2 oed; cymorth rhianta; cymorth gwell gan ymwelwyr iechyd; a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Yn ystod y cam cyntaf, bydd tua 2,500 o blant ychwanegol (0-4 oed) yn elwa ar bob un o bedair elfen Dechrau'n Deg.

Dyma'r cam cyntaf i gyflawni'r ymrwymiad ar gyfer ['mynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed'](#), gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg'. Mae'r ymrwymiad wedi'i nodi yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.

Dros yr haf, bydd awdurdodau lleol yn cysylltu â theuluoedd sydd bellach yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg. Bydd cynlluniau ar gyfer yr ail gam yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref.

2. Pam ddylai pobl fanteisio ar gynnig Cam Un?

Bydd y rheini sy'n gymwys yn derbyn 12.5 awr yr wythnos o ofal plant o ansawdd uchel wedi'i ariannu am 39 wythnos o'r flwyddyn. Mae gweithlu gofal plant Dechrau'n Deg yn gymwys i gefnogi datblygiad plant ac yn ategu'r fagwraeth a ddarperir yn draddodiadol gan rieni/gofalwyr.

Bydd plant o dan bedair oed a'u teuluoedd, sy'n byw yn yr ardaloedd sy'n ehangu'r ddarpariaeth, yn gallu elwa ar y rhaglen ymweliadau iechyd well a chael mynediad at gymorth gan weithlu hyfforddedig Lleferydd, iaith a Chyfathrebu Dechrau'n Deg, lle bo angen.

Bydd rhieni/gofalwyr hefyd yn gallu manteisio ar becynnau cymorth y rhaglenni i wella eu sgiliau rhianta wrth gefnogi datblygiad, gofal a lles eu plentyn.

3. Ydych chi'n disgwyl i bawb sy'n manteisio ar y cam cyntaf dderbyn pob un o bedair elfen Dechrau'n Deg?

Ydym. Mae disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu pob un o bedair elfen Dechrau'n Deg yn ystod cam cyntaf yr ehangu, er y gallai fod angen gwneud rhai trefniadau dros dro yn ystod Cam Un, hyd nes i'r systemau angenrheidiol gael eu sefydlu, ac i'r gweithlu gael ei recriwtio i allu cynnig gwasanaethau llawn Dechrau'n Deg.

4. Pam nad ydych chi'n mynd i'r cymunedau mwyaf difreintiedig?

Mae canllawiau ehangu Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i dargedu'r broses o ehangu Dechrau'n Deg yng nghymunedau ardaloedd mwy difreintiedig nad ydynt eisoes yn rhan o raglen Dechrau'n Deg.

5. Pam mae pob awdurdod lleol yn cael arian ychwanegol i ehangu Dechrau'n Deg yn ystod y cam cyntaf pan fo lefelau gwahanol o amddifadedd yn amlwg ledled Cymru?

Rydym am i bob awdurdod lleol gael cymorth ariannol i ddechrau ehangu darpariaeth Dechrau'n Deg wrth i ni weithio tuag at ddarpariaeth gyffredinol. Drwy wneud hynny, caiff ei gyflwyno'n deg ac yn systematig ledled Cymru.

6. Beth yw'r cynlluniau ar gyfer ehangu pellach i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu?

Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda Gweinidogion i gytuno'n derfynol ar y cam nesaf. Fel yn achos Cam Un, cynhelir ymarfer cynllunio ar y cyd â rhanddeiliaid. Caiff y cynlluniau ar gyfer Cam 2 eu cyhoeddi yn yr hydref.

7. Ai helpu rhieni i gael gwaith yw diben ehangu darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg?

Prif amcanion ehangu Dechrau'n Deg i 2,500 yn rhagor o blant a theuluoedd yw:

- Sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd
- Mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd
- Cynyddu'r gwasanaethau gofal plant, a'r llefydd a'r lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg a ddarperir.

Fodd bynnag, efallai y bydd ariannu gofal i blant 2 oed hefyd yn galluogi rhieni i weithio neu i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant ac addysg na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.

8. Sut mae gofal plant Dechrau'n Deg o fudd i rieni sy'n gweithio'n llawn-amser pan mai dim ond 12.5 o oriau'r wythnos a gynigir?

Mae'r prif fanteision wedi'u nodi uchod. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth hon yn talu rhywfaint o gostau gofal plant y rheini sy'n gweithio'n llawn-amser. Gweler uchod.

Gofal Plant Dechrau'n Deg

9. Pam nad yw'r Cynnig Gofal i blant 3-4 oed yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r ymrwymiad i ddarparu gofal plant i bob plentyn 2 oed?

Mae'r Cynnig Gofal Plant yn gyfyngedig i rieni sy'n gweithio yn unig. Mae rhagor o wybodaeth am y cynnig ar gael yma: [Cynnig Gofal Plant Cymru | Help Gyda Chostau Gofal Plant yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

10. Sut bydd ymestyn y gofal i blant 2 oed o fudd i blentyn/teulu?

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod plant sy'n mynychu lleoliadau blynyddoedd cynnar o safon uchel yn fwy annibynnol, yn canolbwyntio ar eu chwarae am gyfnodau hirach ac, wrth ddechrau yn yr ysgol, yn fwy cydweithredol ac wedi'u paratoi'n well ar gyfer yr heriau sydd o'u blaen.

Mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, mae plant yn gallu elwa ar y manteision ychwanegol sy'n deillio'n aml o fod yn ddwyieithog, megis mwy o allu i ganolbwyntio, gweithrediad gwybyddol uwch a gwell cysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol. Gall plant sy'n medru newid rhwng ieithoedd yn aml ddatblygu dulliau mwy hyblyg o feddwl drwy broblemau.

Bydd plant yn elwa o dreulio amser mewn amgylchedd diogel a meithringar gyda'u cyfoedion.

11. Pwy sy'n gymwys?

Yn ystod y cam cyntaf rydym yn anelu at gyrraedd hyd at 2,500 o blant ychwanegol o dan 4 oed drwy ymestyn ardaloedd Dechrau'n Deg ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Erbyn diwedd y cam cyntaf, bydd rhieni a gofalwyr pob plentyn o dan 4 oed sy'n byw yn yr ardaloedd hynny yn gymwys i gael gwasanaethau Dechrau'n Deg (ymweliadau iechyd, cymorth lleferydd ac iaith a chymorth rhianta (lle bo angen)), gyda'r rhai rhwng dwy a thair oed yn gymwys i gael gofal plant Dechrau'n Deg. Bydd gwybodaeth fanylach am leoliadau ar gael erbyn diwedd haf 2022, a bydd awdurdodau lleol yn cysylltu â'r teuluoedd cymwys.

Pan gaiff yr elfen gofal plant ei chyflwyno'n llawn, bydd pob teulu yng Nghymru sydd â phlant rhwng dwy a thair oed yn gymwys. Bydd gwybodaeth am hyn ar gael yn ddiweddarach eleni.

12. Sut mae gwneud cais amdano/ei ddefnyddio?

Bydd teuluoedd sy'n byw yn ardaloedd newydd Dechrau'n Deg yn cael eu hysbysu gan eu timau Dechrau'n Deg lleol.

Bydd yr wybodaeth am yr ardaloedd hyn ar gael erbyn diwedd haf 2022.

13. Sut mae hyn yn cefnogi/ategu'r cynnig gofal plant sydd eisoes ar waith?

Mae'r gofal plant sydd ar gael drwy Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy i dair oed. Mae'n cynnwys 12.5 awr yr wythnos o ofal plant o ansawdd uchel a ariennir, am 39 wythnos o'r flwyddyn. Bydd ar gael mewn lleoliadau penodol yng nghanam cyntaf yr ehangu.

Mae [Cynnig Gofal Plant Cymru](#) yn darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir ar gyfer rhieni plant tair a phedair oed, hynny yw rhieni sy'n gymwys ac yn gweithio, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. O fis Medi ymlaen bydd y Cynnig Gofal Plant hefyd ar gael i rai rhieni mewn addysg a hyfforddiant. Yn ystod y tymor (39 wythnos o'r flwyddyn) mae'r Cynnig yn adeiladu ar yr ymrwymiad cyffredinol presennol i addysg gynnar sy'n rhoi o leiaf 10 awr yr wythnos o ddarpariaeth i bob plentyn tair a phedair oed. Am y naw wythnos sy'n weddill, mae'r Cynnig yn ariannu 30 awr o ofal plant yr wythnos.

Mae Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant gyda'i gilydd yn agweddau pwysig ar ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer Addysg a Gofal Plentynod Cynnar ledled Cymru.

14. A fydd fy mhientyn yn symud yn awtomatig i Addysg Gynnar/y Cynnig Gofal Plant pan fydd yn troi'n dair oed?

Bydd plentyn sy'n cael gofal plant Dechrau'n Deg yn gallu trosglwyddo (drwy gais) i elfen addysg gynnar y Cynnig pan fydd yn cyrraedd yr oedran perthnasol. Fel arfer, dyma'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, ond mae'r union amseriad yn wahanol rhwng gwahanol awdurdodau lleol.

Bydd plant rhieni cymwys sy'n gweithio, a rhai rhieni mewn addysg a hyfforddiant, hefyd yn gallu manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig Gofal Plant o'r pwynt hwn. Ceir rhagor o wybodaeth ar [ymgyrch-cynnig-gofal-plant-cymru](#)

15. A fydd gwasanaethau gofal plant a ariennir ar gael i holl rieni/gofalwyr plant 2 flwydd oed yng Nghymru?

Bydd, ymhen amser. Fodd bynnag, yng nghanam cyntaf yr ehangu, ein nod yw cyrraedd hyd at 2,500 o blant ychwanegol o dan bedair oed mewn ardaloedd penodol ym mhob awdurdod lleol.

16. Sut bydd y cynnig hwn yn cael ei gyflwyno, a phryd y bydd ar gael i bawb?

Bydd yn cael ei gyflwyno'n raddol.

Bydd y meini prawf ar gyfer cam cyntaf yr ehangu yn canolbwyntio ar amddifadedd a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg (lleoedd a lleoliadau).

Bydd y cam cyntaf yn dechrau o fis Medi 2022 a chyhoeddir cynlluniau ar gyfer cam nesaf yr ehangu yn yr hydref.

17. Pa ddarparwyr fydd yn cynnig y cynllun?

Byddwn yn helpu darparwyr gofal plant presennol Dechrau'n Deg i ymestyn eu darpariaeth, yn ogystal â pharhau i annog darparwyr newydd i gynnig y lleoedd gofal plant, gan gynnwys gwarchodwyr plant a'r darparwyr hynny sy'n arbenigo mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, i gynnig lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg.

Cyhoeddwyd canllawiau i awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o ehangu'r ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar ym mis Mawrth 2022.

18. Os ydw i eisoes yn defnyddio darparwr penodol ar gyfer gofal plant, a fydd yn rhaid i mi newid er mwyn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth hon?

Os yw eich darparwr eisoes yn darparu lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg efallai y byddwch yn gallu cael mynediad at ofal plant drwyddynt – mae'n rhaid i'r darparwr fod wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a bodloni safonau Dechrau'n Deg. Os ydych chi'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg newydd ond yn defnyddio darparwr gofal plant nad yw wedi'i gofrestru eto i ddarparu gofal plant Dechrau'n Deg, efallai y bydd angen i chi newid darparwr er mwyn cael mynediad i ofal plant drwy Dechrau'n Deg.

Os yw rhiant/gofalwr yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg bydd rhestr o leoliadau cofrestredig gofal plant Dechrau'n Deg ar gael drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd: [Dod o hyd i'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol | LLYW.CYMRU](#).

19. Pryd y caf wybod a fydd fy narparwr gofal plant yn rhan o'r cynllun hwn?

Bydd y wybodaeth hon ar gael erbyn diwedd haf 2022 drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd: [Dod o hyd i'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol | LLYW.CYMRU](#).

20. Pam nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi teuluoedd nes i'w plentyn droi'n ddwy oed, a pham nad oes unrhyw gefnogaeth pan ddaw absenoldeb mamolaeth i ben?

Lansiwyd ein gweledigaeth ar gyfer system Addysg a Gofal Plentynod Cynnar gyfannol yng Nghymru ym mis Hydref 2019. Ein nod yw cynyddu mynediad at ddarpariaeth Addysg a Gofal Plentynod Cynnar yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesaf, er mwyn sicrhau y gall mwy o blant a theuluoedd elwa ar fynediad at ddarpariaeth a ariennir cyn oedran ysgol statudol.

Byddwn yn cynhyrchu cynllun gweithredu Addysg a Gofal Plentynod Cynnar yn ddiweddarach eleni a fydd yn gosod y trywydd ar gyfer y 10 mlynedd nesaf a sut y byddwn yn sicrhau bod y sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn cael ei gefnogi i gyflawni nodau uchelgeisiol Addysg a Gofal Plentynod Cynnar.

Y cam cyntaf ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth yw'r gwaith sydd ar y gweill i ehangu'r Cynnig Gofal Plant i gefnogi mynediad at ofal plant i rieni/gofalwyr plant tair a phedair oed sydd mewn addysg neu hyfforddiant. Nodwyd hyn yn ein [datganiad ysgrifenedig](#) a gyhoeddwyd ar 2 Mawrth 2022.

Y cam nesaf yw ehangu'n raddol y gofal rhan amser o safon a ariennir drwy Dechrau'n Deg i blant rhwng dwy a thair oed; gyda'r Cynnig Gofal Plant yn cynnig darpariaeth i deuluoedd cymwys ar gyfer plant tair a phedair oed.

Ar hyn o bryd, mae gan bob plentyn yng Nghymru hawl i o leiaf 10 awr o ddarpariaeth addysg gynnar o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed nes iddynt ddechrau addysg amser llawn. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn adeiladu ar y ddarpariaeth addysg gynnar gyffredinol bresennol hon, gan gynnig oriau ychwanegol o ofal plant i rieni sy'n gweithio yn ystod tymor yr ysgol (39 wythnos o'r flwyddyn).

21. O ystyried goblygiadau ehangach straen ariannol i deuluoedd yng Nghymru, a yw'r cynllun hwn yn mynd yn ddigon pell?

Mae nifer o ffyrdd y gellir cefnogi teuluoedd gyda chostau gofal plant, gan gynnwys rhai o gynlluniau Llywodraeth y DU. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan [Childcare Choices](#) ynghylch y cymorth sydd ar gael, er enghraifft Gofal Plant Di-dreth neu Gredyd Cynhwysol.

Mae ehangu'r ddarpariaeth ran amser yn raddol ar gyfer plant 2 flwydd oed yn gam tuag at gefnogi mwy o deuluoedd â chostau gofal plant.

22. A fydd newidiadau pellach i'r cynnig/darpariaeth gofal plant yng Nghymru?

Mae newidiadau eraill yn y tymor byr gyda'r Cynnig Gofal Plant yn cael ei ehangu i rieni mewn addysg a hyfforddiant. I ddechrau, bydd yr ehangu hwn yn canolbwyntio ar rieni sydd wedi cofrestru ar gyrsiau Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu'r estyniad hwn.

Yn 2019 lansiodd Llywodraeth Cymru ein gweledigaeth ar gyfer Addysg a Gofal Plentynod Cynnar a fydd yn diwygio'r ddarpariaeth addysg a gofal cynnar yng Nghymru er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Dyma ein dull gweithredu hirdymor ar gyfer darpariaeth gofal plant yng Nghymru.

Rydym yn cychwyn ar daith ddeng mlynedd i fabwysiadu dull gweithredu Addysg a Gofal Plentynod Cynnar ar gyfer plant 0 i 5 oed. Bydd hyn yn golygu sicrhau bod ein darpariaeth addysg a gofal plant yn canolbwyntio ar ddatblygiad cyfannol

anghenion cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol plant i gefnogi lles a dysgu gydol oes.

Bydd ein gweledigaeth ar gyfer Addysg a Gofal Plentynod Cynnar yn dileu'r rhaniad artiffisial rhwng lleoliadau addysg a gofal, gan sicrhau bod pob lleoliad sy'n darparu Addysg a Gofal Plentynod Cynnar yn cyfrannu at les a datblygiad plentyn ar sail gyfartal.

Un o egwyddorion Addysg a Gofal Plentynod Cynnar yw rhoi mynediad a dewis i rieni, er mwyn sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn hyblyg ac yn ymatebol i amgylchiadau unigol.

23. Ydy cymwysterau staff mewn lleoliadau Dechrau'n Deg yn uwch nag mewn lleoliadau eraill?

Rhaid i bob gweithiwr gofal plant gyrraedd cymwysterau penodol i weithio yn y sector pwysig hwn. Rhaid i bob lleoliad fodloni'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#).

Mewn lleoliadau Dechrau'n Deg, mae'n ofynnol i fwy o staff fod â chymwysterau lefel uwch nag mewn lleoliadau eraill. Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn Rhestr Gofal Cymdeithasol Cymru o'r Cymwysterau Gofynnol i weithio yn y Maes Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru [Fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant rheoledig yng Nghymru | Gofal Cymdeithasol Cymru](#).

24. Sut y byddwch yn sicrhau y gall y gweithlu gofal plant ymdopi â'r galw ychwanegol am wasanaethau?

Rydym yn gwybod y bydd heriau. Bydd angen inni gryfhau'r gweithlu i ateb y galw newydd am wasanaethau.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y gweithlu, gan gefnogi cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ac uwchsgilio, ac ariannu partneriaid Cwlwm i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i leoliadau er mwyn recriwtio a chadw ymarferwyr.

Bydd angen inni ehangu'n raddol a chryfhau'r gweithlu ar draws pob sector – gofal plant, ymwelwyr ieuchyd, a lleferydd, iaith a chyfathrebu, rhianta ac awdurdodau lleol.

Mae darpariaeth Gymraeg yn faes a fydd angen sylw penodol, lle mae'r heriau o ran recriwtio a chadw staff yn sylweddol. Bydd angen inni sicrhau bod mwy o leoliadau addysg Gymraeg yn gallu darparu gofal plant, gan gefnogi mwy o deuluoedd sydd am roi cychwyn dwyieithog i'w plant ar eu taith ddysgu.

25. Sut y byddwch yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn sicrhau bod digon o leoliadau cyfrwng Gymraeg?

Mae awdurdodau lleol eisoes yn hyrwyddo darpariaeth Gymraeg ac yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddarparu gofal plant cyfrwng Gymraeg a dwyieithog. Mae angen i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer cynnydd mewn lleoedd

ysgolion a lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg fel rhan o'u Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a bydd angen i unrhyw ehangu gyd-fynd â'r rhaglen Dechrau'n Deg.

Mae awdurdodau lleol wedi cyflwyno eu Cynlluniau 10 mlynedd Cymraeg mewn Addysg yn ddiweddar, gan nodi sut y maent, gyda'i gilydd, yn bwriadu bodloni'r cynnydd disgwylidig o 30% yn nifer y dysgwyr sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2031/32. Mae cynllunio yn ogystal â hyrwyddo darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn rhan bwysig o unrhyw gynllun awdurdod lleol. Bydd awdurdodau lleol yn cyhoeddi Aseidiadau 2022 o Ddigonolrwydd Gofal Plant erbyn diwedd Medi 2022, a fydd yn dangos i ba raddau y mae'r ddarpariaeth gofal plant yn gydnaws â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg – i gefnogi twf gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal â hwyluso proses bontio ddiraferth o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Cymraeg.